**CIC/2021/002**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 19 Ionawr 2021

**STATWS**: **GWEITHREDU / GWYBODAETH**

**CATEGORI**: **LLYWODRAETHU**

**Teitl: Rolau Pencampwyr Bwrdd**

**Dyddiad dod i ben / Adolygu** Mawrth 2023

**I'w weithredu gan:**

Cadeiryddion Y GIG a Byrddau Iechyd Lleol (BILlau)

Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol

Cyfarwyddwyr Llywodraethiant Corfforaethol/Ysgrifenyddion Byrddau Ymddiriedolaethau'r GIG a BILlau

**Camau i'w cymryd erbyn:**

Yn unol ag amserlen y Bwrdd a'r Pwyllgor, ond heb fod yn hwyrach na 31 Mawrth 2021. Gweler paragraff 4.

**Er gwybodaeth:**

Cadeirydd Addysg a Gwella Iechyd CYMRU (AaGIC)

Cadeirydd Interim Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Cadeiryddion Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC), Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC) a'r Pwyllgor Cydwasanaethau (Pwyllgor NWSSP)

Cyfarwyddwyr Llywodraethiant Corfforaethol/Ysgrifenyddion Byrddau AaGIC a DHCW

Ysgrifenyddion Pwyllgor WHSSC, EASC a Phwyllgor NWSSP

Cyfarwyddwyr Cyllid

Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Cyfarwyddwyr Therapïau a Gwyddorau Iechyd

Cyfarwyddwyr Meddygol

Cyfarwyddwyr Cynllunio

Cyfarwyddwyr Nyrsio

Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd

**Anfonir gan :** Maureen Potter, Grwpiau Agored i Niwed a Llywodraethu'r GIG, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Enw(au) Cyswllt GIGC yn Llywodraeth Cymru:**

Lyn Summers, Tîm Cymorth Canolog ar gyfer Deddfwriaeth; Iechyd meddwl. Grwpiau Agored i Niwed a Llywodraethu'r GIG, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, lyn.summers@llyw.cymru

Melanie Westlake, Llywodraethu'r GIG, Iechyd Meddwl, Grwpiau Agored i Niwed a Llywodraethu'r GIG, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, melanie.westlake@gov.wales

Maureen Potter, Tîm Cymorth Canolog ar gyfer Deddfwriaeth; Iechyd Meddwl, Grwpiau Agored i Niwed a Llywodraethu'r GIG, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, maureen.potter@llyw.cymru

Blwch negeseuon e-bost HSSG-CentralLegislationSupport@llyw.cymru

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Un

## 1. Cyflwyniad

Mae swyddi pencampwyr bwrdd wedi'u cyflwyno i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG ers 2003 ac maent yn gymysgedd o rolau statudol ac anstatudol, i'w cynnal ar lefel anweithredol (aelod annibynnol) cyfarwyddwr gweithredol neu'r ddau.

## 2. Penderfyniad

Yn ystod 2020 cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru asesiad manwl o bob un o'r rolau Pencampwyr i asesu'r angen iddynt barhau. Nododd yr asesiad hwn rolau yr oedd angen eu cynnal a saith rôl a ddylai ddod i ben.

<u>Rolau a ddylai ddod i ben</u>:

- **Cynaliadwyedd Iechyd:** Oherwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a 'Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol', nid oes angen y rôl bellach gan fod y Ddeddf yn ymgorffori cynaliadwyedd yn mhenderfyniadau'r Byrddau, gyda'r cynllun yn pennu cyfeiriad y GIG yng Nghymru.
- **Eiriolwr Cleifion dros Lanhau (amgylchedd ysbyty):** Mae'r arferion gorau hyn bellach wedi ennill eu plwyf.
- **Rôl Dylunio:** Casglodd fod rôl y Pencampwr wedi'i bodloni ac nad oes angen iddi barhau.
- **Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd:** Disodlwyd gan rolau statudol Gweithio i Wella.
- **Ystadau:** casglodd nad oes angen i rôl y Pencampwr barhau.
- **Rheoli Diogelwch:** Casglodd nad oes angen i rôl y Pencampwr barhau.
- **Oedi wrth drosglwyddo gofal**: Mae'r cylch gwaith bellach yn perthyn i'r Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am berfformiad.

## 3. Rolau i barhau:

Nodir y rhain yn yr Atodiad i'r Cylchlythyr Iechyd hwn .

## 4. Y camau nesaf

Dylai Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG gymryd y camau canlynol:

- Nodi'r unigolion sy'n cyflawni'r rolau Pencampwyr a amlinellir yn y Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn fel rhai sy'n dod i ben a'u hysbysu am y penderfyniad hwn.
- Sicrhau y deuir o hyd i unigolion i gyflawni'r rolau lle y mae'r gofyniad yn parhau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd y camau canlynol:

- Bydd arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru dros y misoedd nesaf yn cyflwyno disgrifiad o rolau'r Pencampwyr sy'n parhau (yn achos y swyddi hynny lle nad oes un ar hyn o bryd) i roi mwy o eglurder am ddisgwyliadau'r rôl ac i werthuso ei heffeithiolrwydd. Byddant hefyd yn helpu i asesu gwerth cadw'r rôl yn y dyfodol.

**ATODIAD: Rolau sy'n parhau**

| Rôl | Gweithredol (E) / Anweithredol (NE) | Rheswm dros gadw | Statudol |
|---|---|---|---|
| **Diogelwch Tân** | E | Credir bod y rôl yn hanfodol (CIC/054/2002). | |
| **Cynllunio at Argyfwng** | E | Mae gan sefydliadau'r GIG dyletswydd o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. | **Y** |
| **Caldicott** | E | Gweithgarwch parhaus. (CIC (99) 92). | |
| **Trais ac Ymddygiad Ymosodol** | E | Yn darparu arweinyddiaeth i gyflwyno 'Ymatebion Gorfodol i Drais mewn Gofal Iechyd' 2018. | |
| **Atal a rheoli haint** | NE | Angen parhaus am y rôl er mwyn sicrhau bod atal a rheoli haint wedi ymwreiddio myn y sefydliad ac yn cael ei adlewyrchu gan bolisi a gweithdrefnau. | |
| **Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr** | NE | Eirioli dros gyn-filwyr a'r lluoedd arfog i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau gwasanaeth lleol. | |
| **Iechyd Meddwl** | Is-gadeirydd. | Angen parhaus a chyfrifoldeb penodol Is-gadeiryddion. Cyfarfodydd rheolaidd rhwng Is-gadeiryddion a'r Gweinidog. | |
| **Cydraddoldeb** | NE | Angen parhaus am y rôl | |
| **Plant a Phobl Ifanc** | E a NE | Pennir ym Mhennod 31 o Ddeddf Plant 2004 | **Y** |

| Rôl | Gweithredol (E) / Anweithredol (NE) | Rheswm dros gadw | Statudol |
|---|---|---|---|
| **Gweithio i Wella** | E a NE | Pennir gan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 | **Y** |
| **Codi Pryderon (Staff)** | E neu NE | Nodwyd bod bwlio ac aflonyddu yn broblem benodol ar draws pob un o sefydliadau'r GIG. Angen arweinyddiaeth i hwyluso llwybr diogel i staff godi pryderon. (Gweithdrefn i staff y GIG Godi Pryderon (Chwythu'r Chwiban) 2017) | |
| **Y Gymraeg** | E | Angen arweinyddiaeth i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i phrif ffrydio yng ngwaith y Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaethau. (CIC (2008) 002 a Mwy na Geiriau 2016) | |
| **Pobl Hŷn** | NE | O dan ystyriaeth bellach | |